

Cronfa Cymunedau'r Arfordir - Amodau a Thelerau Grant Safonol

(Diwygiwyd 1 Mehefin 2016)

Diffiniadau

"Mae "ni", "ein", "rydym" a "byddwn" yn cyfeirio at y mudiad sy'n derbyn grant ac sydd wedi'i rwymo gan yr amodau a thelerau hyn. Mae "chi", "eich", "rydych" a "byddwch" yn golygu'r Gronfa Loteri Fawr ac yn cynnwys eich cyflogeion a'r rhai sy'n gweithredu ar eich rhan.

Mae "prosiect" yn golygu'r prosiect rydych yn rhoi'r grant i ni ar ei gyfer, fel y nodir yn ein ffurflen gais ac unrhyw ddogfennau ategol, ac fel yr amrywir gan y Cytundeb Grant.

Mae'r "Cytundeb Grant" rydym wedi'i dderbyn a'i lofnodi'n cynnwys ac yn ymgorffori'r amodau a thelerau safonol hyn a'r llythyr cynnig grant ynghyd ag unrhyw amodau eraill rydym wedi cytuno arnynt.

1. Yn gyffredinol

- 1.1 Byddwn yn defnyddio'r grant ar gyfer y prosiect yn unig. Byddwn yn cadw unrhyw ran o'r grant nad yw wedi cael ei ddefnyddio ar ymddiried drosoch chi drwy'r amser a byddwn yn ad-dalu unrhyw grant (gan gynnwys unrhyw grant nas defnyddir) i chi ar unwaith ar gais.
- 1.2 Yn ystod cyfnod y grant byddwn yn gweithredu mewn ffordd deg ac agored heb wahaniaethu ar sail hil, crefydd, oedran, rhyw neu anabledd, ac mewn cydymffurfiaid â deddfwriaeth berthnasol.
- 1.3 Byddwn yn sicrhau bod holl aelodau ein corff llywodraethu, neu ein tîm gweithredol os ydym yn fudiad statudol, nawr ac yn y dyfodol, yn derbyn copi o'r amodau a thelerau hyn wrth i'r Cytundeb Grant aros mewn grym (yn unol â chymal 10.)
- 1.4 Byddwn yn sicrhau drwy'r amser pan fydd y cytundeb grant mewn grym ein bod wedi'n cyfansoddi a'n rheoleiddio'n gywir a bod derbyn y grant a chyflwyno'r prosiect o fewn cwmpas ein dogfennau llywodraethu ac, os byddwch yn gofyn i ni, byddwn yn darparu barn gyfreithiol gan ein cyfreithwyr yn cadarnhau hyn.

2. Y prosiect

- 2.1 Byddwn yn cael caniatâd ysgrifenedig gennych cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r prosiect neu i'w enw, ei nodau, ei strwythur, ei gyflwyniad, ei ganlyniadau, ei hyd neu berchnogaeth arno.
- 2.2 Byddwn yn cychwyn y prosiect o fewn chwe mis ar ôl derbyn y Cytundeb Grant neu, os yw'n cael ei ohirio, byddwn yn ysgrifennu atoch yn rhoi'r rhesymau dros yr oedi ac yn gofyn am estyniad.
- 2.3 Rydym yn cytuno i wneud ymdrech resymol i gyflwyno'r prosiect a'i gwblhau ar amser neu o fewn cyfnod rhesymol os nad ydych wedi pennu terfyn amser.
- 2.4 Ni fyddwn yn defnyddio'r grant i dalu am unrhyw wariant rydym wedi ymrwymo iddo cyn dyddiad y Cytundeb Grant.
- 2.5 Byddwn yn eich hysbysu ar unwaith am unrhyw gynnig ariannu ar gyfer y prosiect hwn gan unrhyw un arall unrhyw bryd yn ystod y prosiect.
- 2.6 Os byddwn yn gwario llai na'r grant cyfan ar y prosiect, byddwn yn dychwelyd y swm heb ei wario i chi'n brydlon. Os yw'r grant yn ariannu'r prosiect yn rhannol, byddwn yn dychwelyd y gyfran briodol o'r swm heb ei wario i chi'n brydlon.
- 2.7 Byddwn yn cydnabod y grant yn gyhoeddus fel y bo'n briodol ac yn ymarferol. Byddwn yn dilyn eich canllawiau brandio a chyhoeddusrwydd yn ddi-ffael. Byddwn yn cydnabod eich cefnogaeth mewn unrhyw ddogfennau a gyhoeddir neu unrhyw gyfryngau digidol sy'n cyfeirio at y prosiect, gan gynnwys hysbysebion swyddi, cyfrifon ac adroddiadau blynyddol cyhoeddus, neu mewn cyflwyniadau cyhoeddus ysgrifenedig neu lafar ynglŷn â'r prosiect.
- 2.8 Trwy hyn caniatawn unrhyw gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r grant a'r prosiect y gallai fod ei angen arnoch o bryd i'w gilydd. Gallwch gyflawni unrhyw ffurfiau ar gyhoeddusrwydd a marchnata i hyrwyddo'r dyfarniad grant yr ystyriwch eu bod yn briodol. Rydym yn cytuno i wneud beth bynnag rydych yn gofyn amdano'n rhesymol er mwyn cynorthwyo unrhyw ffurf ar gyhoeddusrwydd a marchnata, gan gynnwys unrhyw weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r wasg neu'r cyfryngau.
- 2.9 Byddwn yn dweud wrthyich yn brydlon am unrhyw newidiadau i wybodaeth

rydym wedi'i darparu, a byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth a ddelir gennych bob amser yn wir, yn gywir ac yn ddiweddar a'i bod yn parhau'n wir, yn gywir ac yn ddiweddar pan erys y Cytundeb Grant mewn grym.

- 2.10 Wrth reoli'r holl wybodaeth bersonol byddwn yn bodloni gofynion Deddf Diogelu Data 1998. Byddwn yn eich hysbysu ar unwaith os bydd unrhyw un o'n cysylltiadau allweddol neu bobl y mae eu cyflogau wedi'u hariannu gan y grant yn newid.
- 2.11 Rydym yn cytuno i gydymffurfio â'r holl ddeddfau sy'n rheoleiddio'r ffordd rydym yn gweithredu, y gwaith rydym yn ei gyflawni, y staff rydym yn eu cyflogi neu'r nwyddau rydym yn eu prynu. Byddwn yn sicrhau bod gennym bolisi cyfle cyfartal ar waith drwy'r amser, er mwyn ein helpu i gydymffurfio â'r holl ddeddfau ac arfer da perthnasol pan erys y Cytundeb Grant mewn grym. Byddwn yn sicrhau bod gennym bob cymeradwyaeth a thrwydded y gofynnir amdanynt gan y gyfraith neu gennych chi.
- 2.12 Os yw ein gwaith yn ymwneud â gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion bregus ("pobl fregus"), byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu diogelwch. Byddwn yn cael caniatâd ysgrifenedig y gofalwr neu warcheidwad cyfreithiol cyn cael unrhyw gyswllt uniongyrchol â phobl fregus. Bydd gennym a byddwn yn gweithredu polisi ysgrifenedig a set o weithdrefnau priodol drwy'r amser i ddiogelu pobl fregus, gan gynnwys gweithdrefnau i wirio cefndir a datgeliadau'r holl gyflogeion, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr neu gontractwyr a fydd yn goruchwylio, yn gofalu am neu fel arall yn cael cyswllt uniongyrchol sylweddol â phobl fregus gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu Disclosure Scotland.
- 2.13 Os ydym yn elusen byddwn yn cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban neu Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon os bydd ein hincwm yn mynd dros eu hisafswm ffigur eithrio.
- 2.14 Byddwn yn cynnal lefel yswiriant ddigonol drwy'r amser ac, os gofynnir i ni, byddwn yn darparu copïau o'r polisi yswiriant i chi. Mae hyn yn cynnwys yswiriant cyflogyddion ac atebolrwydd cyhoeddus, ac yswiriant sy'n talu gwerth adnewyddu llawn unrhyw asedau rydych wedi'u hariannu.
- 2.15 Mae gennych yr hawl i atgynhyrchu unrhyw ran o'n cais neu wybodaeth ddilynol a ddarperir i chi gennym ni at unrhyw ddiben y gwelwch ei fod yn briodol heb unrhyw hawliad gennym ni o ran hawlfraint.

2.16 Os byddwch yn mynnu ac fel y bo'n briodol i'r prosiect, byddwn yn gweithredu o dan yr argymhellion a amlinellir yn eich cynllun Iaith Gymraeg a byddwn yn ystyried anghenion ieithyddol buddiolwyr a'r gymuned ehangach yng Nghymru ac yn gweithredu'n unol â hynny.

3. Ein mudiad

3.1 Byddwn yn cael caniatâd ysgrifenedig gennych cyn:

- Newid ein dogfen lywodraethu, oni bai ein bod yn fudiad statudol o ran ein nodau, ein taliadau i aelodau neu gyfranddeiliaid ac aelodau ein corff llywodraethu, rhannu ein hasedau allan (p'un a yw ein mudiad wedi'i ddiddymu neu beidio), neu dderbyn unrhyw aelodau neu gyfranddeiliaid newydd; neu
- Drosglwyddo ein hasedau i, neu gyfuno neu uno, gydag unrhyw gorff arall, gan gynnwys cwmni a sefydlwyd gennym ni.

3.2 Byddwn yn ysgrifennu atoch ar unwaith os gwneir neu fygythir unrhyw honiadau cyfreithiol yn erbyn ni ac/neu a fyddai'n effeithio'n andwyol ar y prosiect yn ystod cyfnod y grant (gan gynnwys unrhyw honiadau a wneir yn erbyn aelodau ein corff llywodraethu neu staff mewn perthynas â'r mudiad).

3.3 Byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig yn syth am unrhyw ymchwiliad sy'n ymwneud â'n mudiad, ein hymddiriedolwyr, ein cyfarwyddwyr, ein cyflogyddion neu ein gwirfoddolwyr a gyflawnir gan yr Heddlu, y Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban, Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon, Cyllid a Thollau EM neu unrhyw gorff rheoleiddio arall.

3.4 Byddwn ar gael i gynnal cyfarfodydd gyda chi ac yn rhoi mynediad llawn a rhydd i chi neu'r sawl sy'n gweithredu ar eich rhan neu'r Swyddfa Archwilio genedlaethol i'n cofnodion ac unrhyw un o'n swyddfeydd neu adeiladau.

3.5 Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd nifer yr aelodau ar ein corff llywodraethu, pwyllgor rheoli neu fwrdd cyfarwyddwyr yn cwmpo o dan ddau, a byddwn yn eu cynyddu i o leiaf dau berson nad ydynt yn perthyn i'w gilydd cyn gynted â phosib.

4. TAW

- 4.1 Rydym yn cydnabod nad yw'r grant yn ystyriaeth ar gyfer unrhyw gyflenwad trethadwy at ddibenion TAW gennym ni i chi. Rydym yn deall nad yw eich rhwymedigaeth yn ymestyn i dalu unrhyw symiau i ni mewn perthynas â TAW yn ychwanegol at y grant, a bod y grant a ddyfernir gennych chi'n cynnwys TAW.
- 4.2 Rydym yn cytuno i ad-dalu unrhyw TAW rydym yn ei hadennill i chi'n syth, p'un ai drwy osod yn erbyn treth, credyd neu ad-daliadau, i'r graddau bod unrhyw gost TAW o'r fath yn cael ei chynnwys yn y grant.
- 4.3 Byddwn yn eich hysbysu ar unwaith os daw'n amlwg y bydd modd adennill unrhyw TAW na ellir ei hadennill a hawliwyd o dan y grant.
- 4.4 Byddwn yn cadw cofnodion priodol a diweddar sy'n gysylltiedig â TAW, a byddwn yn darparu'r cyfryw gofnodion er mwyn i chi edrych arnynt a chael copïau ohonynt yn brydlon ar gais.
- 4.5 Os ydych wedi ariannu'r holl gostau TAW ar gyfer ein prosiect, cytunwn i ad-dalu'r holl TAW rydym yn ei hadennill i chi'n syth.
- 4.6 Os ydych wedi ariannu canran o'r costau TAW ar gyfer y prosiect, cytunwn i ad-dalu'r un ganran o'r TAW a adenillwyd i chi'n syth.

5. Ein hadroddiad a chyfrifon blynyddol

- 5.1 Byddwn yn cydnabod eich grant yn ein hadroddiadau a chyfrifon blynyddol sy'n cwmpasu cyfnod y prosiect.
- 5.2 Byddwn yn dangos eich grant a gwariant cysylltiedig fel cronfa gyfyngedig o dan y disgrifiad "Grant gan Gronfa Cymunedau'r Arfordir" yng nghyfrifon blynyddol ein mudiad. Os oes gennym fwy nag un gronfa gyfyngedig neu fel awdurdod statudol, na allwn ddangos cronfa gyfyngedig yn ein cyfrifon, byddwn yn cynnwys nodyn i'r cyfrifon yn nodi pob cronfa gyfyngedig ar wahân. Os ydym yn derbyn mwy nag un grant gennych, byddwn yn cofnodi pob grant ar wahân yn nodiadau'r cyfrifon. Byddwn yn adnabod arian ac asedau heb eu gwario o ran y grant ar wahân yn ein cofnodion cyfrifyddu.
- 5.3 Byddwn yn anfon copi o'n cyfrifon blynyddol i chi cyn gynted ag y cânt eu cymeradwyo yn unol â'n dogfen lywodraethu a beth bynnag, o fewn deng mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ym mhob blwyddyn y gwnaed taliadau grant ar ei chyfer.

Bydd y cyfrifon yn cael eu llofnodi gan aelod o'n pwyllgor rheoli a'u harchwilio'n allanol neu'n annibynnol gan unigolyn â chymwysterau priodol os yw ein hincwm blynyddol dros £10,000. Os ydym yn gorff statudol, rydym yn deall nad yw'n ofynnol i ni anfon ein cyfrifon i chi. Serch hynny, os bydd angen i chi eu gweld, byddwn yn anfon ein cyfrifon i chi, wedi'u llofnodi a'u harchwilio yn unol â gofynion y rheoliadau priodol.

- 5.4 Byddwn yn cadw cyfrifon a chofnodion priodol a diweddar am o leiaf saith mlynedd ar ôl i'n grant gael ei derfynu, gan gynnwys crynodeb o gyfrifon elw a cholled a chyfrifon rheoli, cofnodion ac anfonebau personél a chyflogres, sy'n dangos sut mae'r grant wedi cael ei wario. Byddwn yn sicrhau bod y cofnodion ariannol hyn ar gael i chi eu harchwilio, ac yn rhoi copïau i chi.
- 5.5 Byddwn yn adrodd yn rheolaidd ac yn gyflawn i holl aelodau ein corff llywodraethu ar sefyllfa ariannol ein mudiad, a byddwn yn rhoi gweithdrefnau ar waith i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi o ddarparu nwyddau a gwasanaethau neu gyflogi staff y mae eu hangen i gyflwyno'r prosiect.

6. Monitro

- 6.1 Byddwn yn monitro cynnydd y prosiect ac yn cwblhau adroddiadau rheolaidd fel y mynnwch gan ddefnyddio'r ffurflenni rydych yn eu hanfon atom.
- 6.2 Byddwn yn anfon unrhyw wybodaeth bellach rydych yn gofyn amdani mewn perthynas â'r prosiect neu ein mudiad, ei weithgareddau, nifer y swyddi a grëwyd gan y prosiect, nifer y defnyddwyr a buddiolwyr eraill a'r cyfryw wybodaeth arall y gall fod ei hangen arnoch o dro i dro. Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hon i fonitro'r prosiect a gwerthuso eich rhaglenni grantiau.
- 6.3 Byddwn yn cwblhau adroddiad terfynol ar y prosiect gan ddefnyddio'r ffurflen a anfonwch atom. Rydym yn deall y bydd y cyfnod monitro grant wedi dod i ben dim ond ar ôl i ni gwblhau'r adroddiad er boddhad i chi ac ar ôl i chi dderbyn cyfrifon blynyddol am y cyfnod llawn er boddhad i chi.
- 6.4 Byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig ar unwaith am unrhyw beth sy'n gohirio neu'n bygwth cwblhau'r prosiect yn sylweddol neu sy'n gwneud cwblhau'r prosiect yn annhebygol.
- 6.5 Byddwn yn eich hysbysu ar unwaith os bydd unrhyw amrywiad neu ostyngiad yng nghanlyniadau'r prosiect.

7. Grantiau ar gyfer cyflogau

- 7.1 Byddwn yn sicrhau ein bod wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau cyflogaeth sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ar waith drwy'r amser. Bydd ein polisïau hyn yn adlewyrchu gofynion cydraddoldeb yn y broses recriwtio a dethol ynghyd â'r angen am sicrhau cydbwysedd priodol o staff yn ein mudiad.
- 7.2 Os yw'r grant ar gyfer talu cyflog swydd newydd, byddwn yn hysbysebu'r swydd wag yn allanol gan ddefnyddio cyfryngau priodol (gan gynnwys cyfryngau a allai ddenu grwpiau difreintiedig). Byddwn yn anfon copi o destun pob hysbyseb atoch o fewn cyfnod amser rhesymol cyn y cyfryw hysbysebu, a fydd yn cyfateb i'r holl arfer gorau cyfredol ac yn cydnabod mai chi yw ariannwr y swydd. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw ail-hysbyseb. Byddwn yn cadw'r disgrifiad swydd, rhestr o'r cyhoeddiadau y gosodwyd yr hysbyseb ynddynt a chopi o'r llythyr penodi, a'u hanfon atoch os byddwch yn gofyn amdanynt. Os ydym wedi rhoi polisi recriwtio mewnol ar waith, gallwch ildio'r hawl i orfodi'r amod hwn yn ysgrifenedig yn ôl eich disgrisiwn.
- 7.3 Ni fyddwch yn talu grantiau ar gyfer cyflogau hyd nes ein bod wedi rhoi enwau'r staff sydd i'w cyflogi, eu cyflogau, eu dyddiadau dechrau cyflogaeth ac, os yw'n briodol, eu dyddiadau gorffen cyflogaeth.
- 7.4 Byddwn yn cynnal yr holl brif gofnodion ariannol gan gynnwys cofnodion personél a chyflogres ar gyfer staff a ariennir gennych am saith mlynedd ar ôl i'r grant ddod i ben. Byddwn yn cwblhau pob dychweliad statudol ar gyfer cyflogeion ac yn gwneud pob taliad perthnasol i gynnwys didyniadau pensiwn a chyflog megis treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

8. Grantiau ar gyfer Asedau a Gwasanaethau

- 8.1 Os yw unrhyw ran o'r grant ar gyfer prynu, adeiladu, adnewyddu, estyn neu newid adeiladau neu dir, byddwn yn cydymffurfio â thelerau'r amodau grant cyfalaf safonol sydd ynghlwm wrth y llythyr cynnig grant neu unrhyw amodau eraill rydych yn eu gosod arnom.
- 8.2 Os defnyddir unrhyw ran o'r grant i brynu unrhyw eitemau cyfalaf eraill neu gyfres o eitemau neu wasanaethau cyfalaf cysylltiedig neu gyfres o wasanaethau sy'n costio mwy na £10,000, byddwn yn sicrhau bod yr archeb yn destun tendr cystadleuol.
- Os oes rhesymau da pam na allwn dendro, byddwn yn cael caniatâd ysgrifenedig gennych ymlaen llaw.

Byddwch yn cydymffurfio â'r holl deddfwriaeth gwrth-lwgrwobrwyo a gwrthlygredd berthnasol ac â deddfwriaeth caffael y DU a'r UE fel y bo'n berthnasol. Rydym yn deall bod rhaid i gyrrff cyhoeddus fodloni deddfwriaeth gaffael berthnasol y DU ac Ewrop ynghyd â darpariaethau Cytundeb Caffael Cyffredinol Sefydliad Masnach y Byd.

- 8.3 Os yw unrhyw ran o'r grant ar gyfer prynu eitem gyfalaf neu gyfres o eitemau cyfalaf megis cyfarpar neu eitemau eraill â bywyd economaidd o bum mlynedd neu fwy, a cherbydau sy'n costio hyd at a chan gynnwys £10,000, byddwn yn cadw'r holl dderbynebau ac anfonebau i chi eu harchwilio. Os byddwn yn prynu cerbyd byddwn yn anfon copi o'r dogfennau cofrestru i chi erbyn tri mis fan hwyraf ar ôl i chi anfon yr arian ar gyfer y cerbyd i ni.
- 8.4 Os defnyddir unrhyw ran o'r grant yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i brynu neu ddatblygu unrhyw hawliau eiddo deallusol, byddwn yn cymryd pob cam angenrheidiol i ddiogelu'r cyfryw hawliau, a chytunwn na fyddwn yn manteisio ar y cyfryw hawliau heb gael caniatâd ysgrifenedig gennych ymlaen llaw. Mae manteisio'n cynnwys defnyddio at unrhyw ddiben masnachol neu unrhyw drwydded, gwerthiant, aseiniad, trosglwyddo deunyddiau neu unrhyw hawliau trosglwyddo arall. Os byddwch yn darparu'r caniatâd rydym yn deall ac yn derbyn y gall fod yn destun amodau sy'n mynnu ein bod yn ad-dalu neu'n rhannu unrhyw arian a dderbyniwn.
- 8.5 Byddwn yn cadw'r holl asedau a ariennir gan y grant yn ddiogel ac mewn cyflwr da ac yn sicrhau bod gennym yswiriant digonol ar eu cyfer nhw i gyd. Ni fydd yn gyfrifol am unrhyw golled o ganlyniad i daliadau a wneir ar gyfer asedau cyn eu danfon. Os caiff yr ased ei ddifrodi, ei ddinistrio neu ei ddwyn, mae'n rhaid i ni eich hysbysu'n ysgrifenedig ac yn ei atgyweirio neu ei newid cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 8.6 Rydym yn deall y byddwch yn monitro asedau a brynwyd gyda'r grant am gyfnod hyd at bum mlynedd ar ôl i'r grant ddod i ben ar gyfer asedau y mae CCA wedi cyfrannu mwy na £50,000 neu drosodd iddynt, oni bai bod hyn yn cael ei amrywio gan unrhyw amodau cyfalaf a fydd, er mwyn osgoi amheuan, yn cael y flaenoriaeth. Os prynwyd yr asedau am lai na £50,000 byddwch chi'n monitro'r asedau tra bod y Cytundeb Grant yn aros mewn grym. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth rydych yn gofyn amdani i chi ac yn caniatáu i chi archwilio'r asedau yn ystod y cyfnod hwnnw.

8.7 Yn ystod y cyfnod monitro grant byddwn yn darparu datganiad blynyddol bod yr asedau wedi'u dal a'u hyswirio gennym ni o hyd. Ni fyddwn yn gwerthu, yn rhoi i ffwrdd neu'n benthyg yn erbyn yr asedau heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig gennych chi'n gyntaf. Gan fod ein grant wedi dod o arian cyhoeddus, rydym yn deall ac yn derbyn, os byddwch yn rhoi caniatâd ysgrifenedig, y gallwch fynnu ei werthu am y gwerth llawn ar y farchnad ac/neu yn amodol ar amodau sy'n mynnu ein bod yn ad-dalu'r cyfan neu ran o'r arian rydym yn ei dderbyn.

9. Talu'r grant

9.1 Byddwn yn agor cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu ar wahân a dynodedig at ddiben derbyn a gweinyddu'r grant yn unig os byddwch yn gofyn i ni wneud hynny, a byddwn yn rhoi'r cyfriflenni banc neu gymdeithas adeiladu i chi pan ofynnir amdanynt.

9.2 Byddwch yn talu'r grant drwy drosglwyddiad banc (BACS) i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu DU yn ein henw ni, sy'n gofyn am lofnodion o leiaf dau berson awdurdodedig ar gyfer pob didyniad. Ni fyddwn yn defnyddio peiriannau ATM neu gardiau debyd i wneud didyniadau ariannol neu daliadau o'r cyfrif hwn.

9.3 Ni fyddwch yn atebol am unrhyw golledion neu gostau (gan gynnwys taliadau banc ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) os nad ydych yn gwneud taliadau grant ar y dyddiad cytunedig. Mae'n rhaid i ni gymryd rhandaliad cyntaf y grant o fewn 6 mis ar ôl dyddiad y llythyr cynnig grant; fel arall mi fydd yn darfod yn awtomatig oni bai eich bod yn cytuno i estyniad yn ysgrifenedig.

9.4 Os byddwch yn talu'r grant mewn rhandaliadau dros ddwy flynedd neu fwy, bydd taliad ar gyfer yr ail flwyddyn a blynyddoedd dilynol yn dibynnu arnoch chi'n cymeradwyo adroddiad diwedd blwyddyn ar y flwyddyn flaenorol, y byddwn yn ei gwblhau ar ffurflen a ddarperir gennych o fewn tri mis ar ôl diwedd y flwyddyn grant. Os nad ydym yn gwneud hyn, gall taliadau grant gael eu hatal.

9.5 Fel arfer byddwch yn gwneud taliadau ar gyfer hyd at dri mis o wariant ymlaen llaw cyhyd â'n bod yn cwblhau cynllun taliadau boddhaol cyn i'r prosiect ddechrau a'n bod wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig o ddyddiad dechrau'r prosiect.

9.6 Os nad ydych yn fodlon ein bod wedi bodloni holl delerau ein Cytundeb

Grant, neu mae angen gwybodaeth neu ddogfennau ychwanegol arnoch, gallwch ofyn am hyn, a gohirio talu'r grant nes eich bod yn penderfynu bod y telerau wedi'u bodloni neu rydych yn derbyn y deunyddiau rydych eu heisiau.

10. Hyd y Cytundeb Grant

10.1 Bydd yr amodau a'r telerau hyn a'r Cytundeb Grant yn aros mewn grym am p'un bynnag o'r rhain yw'r cyfnod hiraf:

- Un flwyddyn yn dilyn talu rhandaliad olaf y grant.
- Cyhyd ag yr erys unrhyw ran o'r grant heb ei wario.
- Diwedd yr uchafswm cyfnod sy'n ofynnol o dan y grant ar gyfer monitro asedau.
- Cyhyd ag y bydd unrhyw dor-cytundeb o amodau a thelerau'r Cytundeb Grant yn parhau (mae hyn yn cynnwys unrhyw adroddiad sydd heb ei gyflwyno ar wariant grant neu gyflwyno'r prosiect).

11. Rydym yn deall

11.1 Cydnabyddwn y gallwch rannu gwybodaeth am ein grant gydag unrhyw bartion o'ch dewis yn ogystal â chydag aelodau'r cyhoedd sy'n cyflwyno cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gall manylion y prosiect gael eu darlledu ar y teledu, ar eich gwefan, mewn papurau newydd a thrwy gyfryngau eraill.

11.2 Ni fyddwch yn cynyddu'r grant os byddwn yn gwario mwy na'r gyllideb gytunedig.

11.3 Gallwch atal taliadau grant os ydych am ymchwilio i unrhyw faterion mewn perthynas â'r grant (neu unrhyw grantiau eraill rydych wedi'u rhoi i ni). Rydym yn deall nad ydych yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw ganlyniadau uniongyrchol neu anuniongyrchol a ddaw o ganlyniad i atal taliadau hyd yn oed os nad yw'r ymchwiliad yn datgelu testun pryder.

11.4 Gallwch ddal yn ôl neu ofyn i ni ad-dalu rhan neu'r cyfan o'r grant yn ôl eich disgrisiwn llwyr, o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol os:

- Byddwn yn methu â bodloni unrhyw un o'r amodau a'r telerau hyn neu'r amodau a thelerau sydd ynghlwm wrth unrhyw grantiau eraill gennyh chi y mae Cytundeb Grant yn aros mewn grym ar eu cyfer.
- Ydym wedi cwblhau'r ffurflen ymgeisio'n anonest neu'n anghywir neu'n gamarweiniol.
- Ydym ni neu unrhyw berson neu fudiad arall sy'n gweithredu ar ein rhan wedi rhoi unrhyw wybodaeth sy'n sylweddol gamarweiniol neu anghywir, p'un ai'n fwriadol neu'n ddamweiniol, yn ystod y broses ymgeisio, neu yn ystod cyfnod y Cytundeb Grant.
- Yw aelodau o'n corff llywodraethu, gwirfoddolwyr neu staff yn gweithredu'n anonest neu'n esgeulus neu mewn unrhyw ffordd sy'n niweidiol i ni neu i'n mudiad neu'r prosiect neu i'ch enw da, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn ystod y prosiect.
- Yw ein mudiad, aelodau o'n corff llywodraethu, cyflogyddion neu wirfoddolwyr yn destun ymchwiliad neu ymchwiliad ffurfiol gan yr Heddlu, y Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban, Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon, Cyllid a Thollau EM neu unrhyw gorff rheoleiddio arall.
- Ydym yn derbyn ariannu dyblyg gan unrhyw ffynhonnell arall ar gyfer yr un prosiect neu unrhyw ran o'r prosiect.
- Nad ydym yn cymryd camau cadarnhaol i sicrhau cyfle cyfartal yn ein harferion cyflogaeth ein hunain ac wrth gyflwyno a hygyrchu ein gwasanaethau ein hunain.
- Ceir newid sylweddol o ran diben, perchnogaeth neu dderbynydd, naill ai yn ystod y prosiect neu o fewn cyfnod rhesymol ar ôl ei gwblhau, fel eich bod yn tybio nad yw'r grant yn debygol o gyflawni'r diben rydych wedi'i ddyfarnu ar ei gyfer.
- Nad ydym yn rhoi gwybodaeth i chi ar unrhyw gam o'r broses ymgeisio neu yn ystod cyfnod y Cytundeb Grant a fyddai'n effeithio ar eich penderfyniad i ddyfarnu'r grant, parhau â'r grant neu ddiddymu rhan neu'r cyfan ohono.

- Ydym yn, neu'n mynd yn, gyfreithiol anghymwys i ddal y grant.
- Os oes gennych sail resymol dros gredu bod angen gwneud hynny i ddiogelu arian cyhoeddus neu fodloni nodau ac amcanion Cronfa Cymunedau'r Arfordir.

11.5 Gallwch ddal yn ôl neu fynnu ein bod yn ad-dalu'r cyfan neu ran o'r grant os yw'n debygol y bydd rhaid i'n mudiad gau i lawr, gael ei ddiddymu neu fynd yn fethdalwr, neu os yw'n debygol o fynd i weinyddiad, i law'r derbynnydd neu ddiddymiad, neu os ydym ar fin gwneud trefniad gyda'n credydwyr neu warantu Gweithred Ymddiriedolaeth iddynt, neu os yw ystâd ein mudiad yn cael ei secwestru yn Yr Alban.

11.6 Rydym yn cydnabod bod y grant yn dod o arian cyhoeddus ac ni fyddwn yn defnyddio'r grant mewn ffordd sy'n gyfystyr â Chymorth Gwladol anghymeradwy. Os pennir ei fod yn Gymorth Gwladol anghymeradwy, byddwn yn ad-dalu'r grant cyfan ar unwaith.

11.7 Ni allwn drosglwyddo unrhyw ran o'r grant neu'r Cytundeb Grant hwn neu unrhyw hawliau oddi tano i fudiad neu unigolyn arall oni bai ein bod wedi llunio cytundeb, y mae'n rhaid ei fod wedi cael ei awdurdodi gennych chi'n ysgrifenedig, yn caniatáu i ni weithio gyda mudiad arall i gyflwyno'r prosiect.

11.8 Byddwn yn sicrhau nad yw unrhyw fudiad neu unigolyn arall yn caffael unrhyw hawliau trydydd parti o dan y Cytundeb Grant hwn.

12. Amodau ychwanegol

12.1 Mae gennych hawl i osod amodau a thelerau ychwanegol ar y grant, naill ai yn y llythyr cynnig ac/neu os:

- Ydym yn gweithredu'n groes i'r Cytundeb Grant.
- Byddwch yn diddymu unrhyw ran o'r ariannu ar gyfer y prosiect
- Ydych chi'n barnu bod aelodau ein corff llywodraethu, gwirfoddolwyr neu staff neu unrhyw berson neu fudiad sy'n ymwneud yn agos â chyflawni'r prosiect yn gweithredu mewn ffordd a allai effeithio'n andwyol ar y prosiect neu ar eich henw da chi fel dosbarthwr arian cyhoeddus neu gorff a noddir gan y Llywodraeth neu ar enw da'r Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol.

- Os oes gennych sail resymol dros gredu bod angen gwneud hynny i ddiogelu arian cyhoeddus.
- Rydych yn credu bod y cyfryw amodau'n angenrheidiol neu'n ddymunol er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflwyno fel yr amlinellwyd yn ein cais neu yn sgil unrhyw newidiadau cytunedig.

13 Newyddu

13.1 Mae gennych hawl i newyddu eich hawliau a'ch rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Grant neu unrhyw ran ohonynt i'r Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol neu i unrhyw gorff arall yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon a fydd yn perfformio'n sylweddol unrhyw un o'r swyddogaethau a berfformiwyd gennych chi'n flaenorol, cyhyd â na fydd y cyfryw newyddiad yn cynyddu baich ein rhwymedigaethau ni o dan y Cytundeb Grant.